# Medli Carolau

O! deuwch, ffyddloniaid,
oll dan orfoleddu,
O! deuwch, O! deuwch
i Fethlehem dref:
Wele, fe anwyd
Brenin yr angylion:
O! deuwch ac addolwn,
O! deuwch ac addolwn,
O! deuwch ac addolwn
Grist o'r nef!

I orwedd mewn preseb rhoed Crëwr y byd,
nid oedd ar ei gyfer na gwely na chrud;
y sêr oedd yn syllu ar dlws faban Mair
yn cysgu yn dawel ar wely o wair.

Draw yn ninas Dafydd Frenin,
yn y beudy isel gwael,
dodai mam un bach mewn preseb,
nid oedd llety gwell i'w gael;
Mair fendigaid oedd y fam,
Iesu'r plentyn bach dinam.

Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
henffych eni Ceidwad dyn:
heddwch sydd rhwng nef a llawr,
Duw a dyn sy'n un yn awr.
Dewch pob cenedl is y rhod,
unwch a'r angylaidd glod,
bloeddiwch oll a llawen drem,
ganwyd Crist ym Methlehem:
Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
henffych eni Cei-dwad dyn!